

Foundation Degree Exercise and Wellness Management



Yn gwyno

Mae'r Radd Sylfaen mewn Rheoli Llesiant ac Ymarfer Corff yn darparu cwricwlwm cyfoes, gan ddatblygu eich set sgiliau sy'n eich paratoi ar gyfer ystod o yrfaeodd yn y maes astudio gwerth chweil hwn sy'n datblygu'n rhyngwladol. Mae'r rhaglen yn cynnig maes newydd a bywiog o archwilio academaidd sydd wedi'i gynllunio i gydnabod anghenion y diwydiant, drwy ymgynghori â chyflogwyr allweddol gan gynnwys gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant ymarfer corff, ffitrwydd a llesiant.

Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar ddatblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth ar draws disgyblaethau mewn ymarfer corff a llesiant i gynnwys:

- Dealltwriaeth o'r corff o safbwynt gwyddoniaeth ymarfer corff
- Datblygu gwybodaeth swyddogaethol mewn ffisioleg ac anatomeg
- Seicoleg ymarfer corff
- Hyfforddiant a mentora
- Llesiant corfforaethol
- Gweithgarwch corfforol a maeth
- Y diwydiant llesiant o safbwynt byd-eang
- Rheoli busnes

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Sgiliau entrepreneuriaidd.

Nod y cwrs yw darparu cyfleoedd dysgu hyblyg i ddatblygu, cymhwysu a myfyrio ar ddarparu arferion llesiant, gan roi cyfleoedd i chi ddatblygu sylfaen gadarn o wybodaeth am y damcaniaethau sy'n sail i reoli llesiant ac ymarfer corff.

Mae'r cwrs cyffrous yn cyfuno ymarfer corff a llesiant gyda rheolaeth i gynnig Gradd Sylfaen ichi sy'n eich galluogi i ddilyn gyrfa yn y sector iechyd a ffitrwydd.

Cewch gyfle i edrych ar y diwydiant ymarfer corff a ffitrwydd ehangach drwy gydnabod y tueddiadau ymarfer corff poblogaidd sy'n dod i'r amlwg ochr yn ochr â gweithgareddau ffitrwydd mwy traddodiadol.

Mae'r cwrs yn gyfoes, yn amrywiol ac yn unigryw a bydd yn eich galluogi i ddatblygu sgiliau sy'n hanfodol yn y diwydiant deinamig ac entrepreneuriaidd hwn.

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... os ydych yn dymuno dilyn gyrfa mewn rheoli llesiant, chwaraeon, ac ymarfer corff
- ... rydych eisiau dilyn cwrs sy'n cydbwysu ymarfer sgiliau gwyddoniaeth, llesiant a rheoli
- ... rydych eisiau cynyddu eich cymwysterau mewn rheoli ymarfer corff, chwaraeon, ac iechyd
- ... rydych eisiau cael cwrs ymarferol sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth
- ... rydych yn dyheu am weithio mewn swydd reoli
- ... rydych yn anelu at gwblhau Gradd BSC (Anrh) mewn Rheoli Llesiant ac Ymarfer Corff

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mewn amgylchedd busnes sy'n newid yn gyflym, mae cyflogwyr yn chwilio am bobl sydd ag amrywiaeth o brofiad ac sy'n hyblyg o ran y sgiliau y gallant eu cynnig i'r diwydiant. Mae'r cwrs hwn a arweinir gan y diwydiant yn rhoi'r arfau i chi allu cyflawni hyn, a byddwch yn cael profiad o natur yr amgylchedd gwaith modern.

Blwyddyn 1 - Lefel 4:



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Anatomeg a Ffisioleg Swyddogaethol
Gweithgarwch Corfforol, Ymarfer Corff a Maeth
Sylfeini Rheoli Ymarfer Corff a Llesiant
Ymarfer Proffesiynol Myfyriol Dysgu Seiliedig ar Waith
Seicoleg Ymarfer Corff
Amgylcheddau Ymarfer Corff Arloesol
Sylfeini Rheoli Ymarfer Corff a Llesiant
Ymarfer Proffesiynol Dysgu Seiliedig ar Waith

Blwyddyn 2 - lefel 5:

Rheoli Llesiant Corfforaethol
Rheolaeth Weithredol
Sgiliau Ymchwil a Phrosiect Ymarfer Corff a Llesiant
Ymarfer Proffesiynol Myfyriol Dysgu Seiliedig ar Waith
Ymgysylltu Strategol â'r Gymuned
Hyfforddiant Ymarfer Corff a Phresgripsiynau
Prosiect Ymchwil Ymarfer Corff a Llesiant
Ymarfer Proffesiynol Myfyriol Dysgu Seiliedig ar Waith

Cewch eich addysgu drwy gyfuniad o ddarlithoedd, seminarau, sesiynau ymarferol a gwaith grwp a'ch asesu drwy arholiadau, aseiniadau, asesiadau ymarferol, cyflwyniadau a phrosiectau. Byddwch hefyd yn cwblhau modiwl seiliedig ar waith, lle byddwch yn rhoi'r hyn rydych yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth ar waith yn y gweithle. Ac os ydych am fynd â'ch astudiaethau ymhellach, mae'r cwrs yn gam perffaith tuag at radd anrhydedd mewn Ymarfer Corff a Rheoli.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gael lle ar y cwrs, bydd angen o leiaf tri TGAU Gradd C neu uwch arnoch gan gynnwys Mathemateg/Rhifedd Mathemateg ac Iaith Saesneg (neu gyfwerth). Bydd angen o leiaf un o'r canlynol arnoch hefyd:

48 o bwyntiau UCAS - cyfrifiannell tariff UCAS

<https://www.ucas.com/ucas/tariff-calculator>

Cymhwyster Mynediad i Addysg Uwch os ydych wedi ennill Diploma Llwyddo gyda 45 Marc Llwyddo

Noder os nad ydych yn bodloni'r meini prawf gradd, efallai y rhoddir ystyriaeth i oed a phrofiad.

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth sy'n digwydd nesaf?

Cyflogaeth mewn datblygu chwaraeon, cyfarwyddyd ffitrwydd, cyfarwyddyd awyr agored neu ymarfer corff a hybu iechyd. Gydag astudiaeth bellach gallwch hefyd ddod yn athro addysg gorfforol.

Gallwch ddewis ychwanegu at BSc (Anrh) Ymarfer Corff a Rheoli Llesiant.

Y sector ymarfer corff a llesiant yw un o'r rhai mwyaf amrywiol o ran cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig. Mae'r diwydiant yn cwmpasu ystod eang o feysydd sydd â swyddi mewn sectorau fel iechyd a ffitrwydd, ffordd o fyw a hyfforddi llesiant, twristiaeth llesiant, ffitrwydd meddwl a chorff, iechyd a llesiant ataliol a llesiant yn y gweithle.

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at fyfyrwyr sy'n gweithio neu sydd am weithio yn un o feysydd niferus y sector gwyddor iechyd ac ymarfer corff. Mae'n cyfuno astudio academiaidd â phrofiad galwedigaethol a bydd yn darparu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn meysydd busnes a rheoli, anatomeg a ffisioleg, maeth, ffitrwydd ac ymarfer corff, hyfforddi a mentora.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r cwrs hwn yn cael ei gynnal am 2 flynedd yn llawn amser neu 3 blynedd yn rhan-amser. Rhoddir masnachfaint ar gyfer y cwrs hwn gan Brifysgol Caerwrangon. Cewch gyfle i ymgymryd â chymwysterau a gydnabyddir gan Ddiwydiant ochr yn ochr â'ch gradd sylfaen.

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

